

Crynodeb Gwirio Ansawdd Infiniti Healthcare

Dyddiad y gweithgarwch: 21 Ionawr 2021

Dyddiad cyhoeddi: 18 Chwefror 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Infiniti Healthcare fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Infiniti Healthcare yn cynnig gofal gynaeoleg i fenywod, gan gynnwys sganiau beichiogrwydd cynnar; Gwasanaethau gynaeoleg cyffredinol (gan gynnwys gwasanaethau esthetig cysylltiedig); wro-gynaeoleg¹ (gan gynnwys gwasanaethau esthetig cysylltiedig) a gwasanaethau ffrwythlondeb.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal yn gyfan gwbl oddi ar y safle ac maent yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol; yr amgylchedd, darparu gofal diogel ac effeithiol, atal a rheoli heintiau a staffio. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 21 Ionawr 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gfael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut mae'r clinig a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

¹ Mae wro-gynaeoleg yn isarbenigedd llawfeddygol ym maes wroleg a gynaeoleg.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar a gofyn i'r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn cynnal diogelwch ac urddas cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Esboniodd y rheolwr cofrestredig fod y clinig ar gau am gyfnod o bedair wythnos ar ddechrau'r pandemig er mwyn iddo wneud newidiadau i'r amgylchedd a lleihau'r posibilrwydd o drosglwyddo COVID-19. Dywedwyd wrthym fod dodrefn a llenyddiaeth ddiangen wedi cael eu symud o'r ardal aros a bod cyn lleied o gadeiriau â phosibl yno. Nid oedd y cleifion yn defnyddio'r ardal aros mwyach, gan mai dim ond un claf oedd yn cael dod i mewn i'r clinig ar unrhyw adeg.

Roedd y ffordd y caiff cleifion eu hasesu yn y clinig hefyd wedi newid. Wrth gyrraedd ar gyfer eu hapwyntiad, gofynnwyd i gleifion aros yn eu ceir y tu allan i'r clinig nes ei bod yn glir iddynt fynd i mewn. Unwaith roedd yn barod, roedd y claf yn cael ei hebrwng i'r adeilad, roedd gofyn iddo ddiheintio ei ddwylo a gwisgo gorchudd wyneb cyn cael ei dywys yn uniongyrchol i'r ystafell ymgynghori. Dywedwyd wrthym fod digon o amser wedi'i neilltuo rhwng apwyntiadau'r clinig er mwyn sicrhau bod cleifion yn cadw pellter cymdeithasol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr holl gyfarpar nad oedd yn gyfarpar untro yn cael ei ddiheintio a'i lanhau'n drylwyr cyn gweld y claf nesaf. Nid oedd y sefyllfa wedi newid yn ystod y pandemig. Ychwanegwyd eitemau newydd at yr amserlen glanhau hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys soffas, cadeiriau, desgiau, dolenni drysau yn cael eu glanhau rhwng pob claf ac roedd yr holl waith glanhau hyn yn cael ei ddogfennu.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu blaenoriaethu yn ystod y pandemig yn ôl pa mor ddifrifol oedd eu cyflwr. Gwelwyd achosion brys gyntaf, a gwelwyd y cleifion â chyflyrau nad oedd angen ymyrryd â nhw ar frys maes o law. Lleihawyd nifer y cleifion a welwyd mewn diwrnod er mwyn cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel.

Gwnaethom adolygu'r ffordd roedd cleifion yn cael apwyntiadau yn ddigidol a thros y ffôn. Dywedwyd wrthym fod system trefnu apwyntiadau ar-lein i gleifion sydd â mynediad digidol a system trefnu apwyntiadau dros y ffôn os oedd angen. Trefnwyd apwyntiadau drwy atgyfeiriadau meddyg teulu hefyd, a gellid anfon cadarnhad naill ai'n electronig neu drwy'r post ar ffurf copïau caled. Gallai cleifion heb dechnoleg ddigidol enwebu aelod o'u teulu i gael gwybodaeth ddigidol ar eu rhan. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod angen i'r claf gael cadarnhad ysgrifenedig er mwyn trefnu hyn.

Ers dechrau COVID-19, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y gellid cynnal

ymgyngoriadau ar-lein. Cynhaliwyd hyn gan ddefnyddio'r feddalwedd ddiogel HeyDoc² a fersiwn ddiogel o Zoom³. Er mwyn cadarnhau manylion adnabod claf, dim ond pan fydd cleifion yn rhoi eu dyddiad geni y gellid cael mynediad i'r alwad fideo ar-lein

Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn cynnal asesiadau risg ar aelodau o'r staff i bennu lefel eu risg o ddal COVID-19. Rhoddwyd systemau ar waith i ganiatáu i staff risg uchel weithio gartref. Roedd yn ofynnol i ddau aelod o'r staff warchod eu hunain yn unol â'r canllawiau cychwynnol. Prynwyd gliniaduron a pheccynnau meddalwedd diogel, a rhoddwyd cyfarpar i'r ddau aelod o staff i'w galluogi i weithio o gartref yn ddiogel.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Gwelsom bolisiau rheoli heintiau, rhestrau glanhau a hylendid a mynediad at hyfforddiant.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth bod y polisi Atal a Rheoli Heintiau wedi cael ei ddiweddarau a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod yr holl gleifion yn cael asesiad risg i ganfod pa mor agored y byddent i niwed pe baent yn dal COVID-19. Gwneir hyn drwy anfon dolen ar-lein drwy HeyDoc a oedd yn gofyn cyfres o gwestiynau, gydag atebion y claf yn pennu a ystyrid ei fod yn wynebu risg isel, risg ganolig neu risg uchel o gymhlethdodau yn gysylltiedig â dal y feirws. Roedd hefyd yn ofynnol i'r cleifion gwblhau dolen arall ar-lein i bennu eu risg o gael COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod cyfarpar diogelu personol (PPE) wedi cael ei brynu a bod stoc ddigonol ar gael. Esboniodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau a oedd yn cael eu cynnal wrth i gleifion gyrraedd y clinig, gan gynnwys cymryd eu tymheredd. Dim ond os bydd y tymheredd o fewn paramedrau arferol y bydd yr ymgynghoriad yn mynd yn ei flaen⁴.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o newidiadau i ganllawiau'r llywodraeth ac lechyd Cyhoeddus Cymru drwy ddiweddariadau e-bost a gohebiaeth â'r bwrdd iechyd. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod cael y wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau wedi bod yn anodd o ganlyniad i amllder y diweddariadau. Roedd y polisi Atal a Rheoli Heintiau wedi cael ei ddefnyddio'n barhaus ac roedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

²Meddalwedd cyfathrebu iechyd yw HeyDoc sy'n ei gwneud yn bosibl i gadw cofnodion diogel ar-lein, ffurflenni ar-lein ac ymgynghoriadau fideo at ddibenion cynghori meddygol nad ydynt yn rhai brys.

³Meddalwedd cyfathrebu fideo menter fodern yw Zoom, gyda llwyfan cwmwl ar gyfer cynadleda fideo a sain, sgwrsio a gweminarau ar systemau symudol, bwrdd gwaith ac ystafell.

⁴ Mae tymheredd arferol y corff yn amrywio rhwng 36.1 a 37.2 gradd Celsius.

Defnyddiwyd diweddariadau gan y GIG ac AGIC i newid unrhyw ganllawiau, er enghraifft y newid diweddar i ganllawiau yn ymwneud â hylendid toiledau a nododd fod yn rhaid glanhau a diheintio toiledau bob tro ar ôl eu defnyddio.

Dywedwyd wrthym y cynhaliwyd hyfforddiant yn benodol ar gyfer COVID-19 yn ystod y pedair wythnos gychwynnol pan gaeodd y gwasanaeth, a bod diweddariadau yn cael eu rhannu ar lafar neu drwy e-bost. Roedd yr hyfforddiant ar gyfer COVID-19 yn ychwanegol at yr hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau rheolaidd, a oedd yn cynnwys golchi dwylo a defnyddio PPE. Gwelsom dystiolaeth bod amserlenni hebryngwyr ac amserlenni glanhau yn cael eu cynnal. I ddechrau, cynhaliwyd cyfarfodydd rhithwir hefyd i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer newidiadau sy'n ofynnol yng ngoleuni COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod bwriad i gau'r clinig am dair wythnos rhwng 23 Rhagfyr 2020 ac 11 Ionawr 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, profodd rhai aelodau o'r staff yn bositif am COVID-19. Ni chafodd hyn effaith ar weithgarwch y clinig oherwydd y bwriad i gau, sy'n digwydd yn flynyddol ar yr adeg honno.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar a gofyn i'r lleoliad am y newidiadau a wnaed mewn ymateb i COVID-19 er mwyn cynnal arferion diogel.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o gydymffurfiaeth o ran hyfforddiant y staff, a oedd yn cynnwys yr hyfforddiant roedd yn rhaid ei gwblhau, pa mor aml a phryd y cwblhawyd hyn ddiwethaf gan y staff.

Er mwyn cynnal niferoedd digonol o staff, dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn defnyddio staff o'r clinig gofal iechyd roeddent yn rhannu'r adeilad â nhw. Roedd yr aelodau o staff dan sylw wedi cael gwiriadau cyflogaeth, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁵, a dangoswyd dystiolaeth o hyn i'r rheolwr cofrestredig cyn iddynt ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym nad oedd nyrsys asiantaeth yn cael eu defnyddio.

Esboniodd y rheolwr cofrestredig y broses ar gyfer archwilio cyfarpar brys a chyffuriau. Rhannwyd y rhain â'r clinig arall yn yr adeilad a chynhaliwyd gwiriadau ar y cyd rhyngddynt o leiaf unwaith y mis a chyn cynnal unrhyw driniaeth feddygol neu lawfeddygol.

⁵ Proses i weld a oes gan unigolyn gofnod troseddol yw gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Gwnaethom archwilio'r broses o gofnodi digwyddiadau a oedd wedi'u dogfennu mewn llyfr cofnodion digwyddiadau ac y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r corff llywodraethu perthnasol. Soniodd y rheolwr cofrestredig wrthym am un digwyddiad yn ymwneud â mwy o amser aros i glaf oherwydd oedi tra'n aros am ganlyniadau fflebotomi. Arweiniodd hyn at ohirio apwyntiad y claf am sawl awr wrth aros am y canlyniadau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod llesiant y staff yn cael ei fonitro drwy drafodaethau anffurfiol er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Roedd y trafodaethau yn rhoi'r cyfle i'r staff rannu unrhyw faterion a oedd ganddynt yn y gweithle a thu allan, megis patrymau gwaith a materion gofal plant. Ystyriwyd unrhyw ddiffygion posibl yn y prosesau presennol, ynghyd â phenderfyniadau posibl, yn ystod y trafodaethau hyn. Arweiniodd hyn at brynu rhagor o liniaduron a systemau TG diogel, fel y gallai'r staff anghlinigol weithio gartref.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Infiniti Healthcare

Ward/Adran/Gwasanaeth (dileer fel y bo'n briodol):

Dyddiad y gweithgarwch: 21 Ionawr 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Ni nodwyd unrhyw welliannau				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw:

Dyddiad: